Llythyr Cariad Dad

Fy Mhlentyn…

Efallai nad wyt ti yn fy adnabod i, ond gwn i bopeth amdanat ti. Salm 139:1 *Gwn pa bryd y byddi yn eistedd i lawr a pha bryd rwyt yn sefyll.* Salm 139:2 *Rwyf yn gyfarwydd â dy holl ffyrdd.* Salm 139:3 *Mae hyd yn oed pob blewyn o wallt dy ben wedi ei rifo.* Mathew 10:29-31 *Oherwydd fe'th wnaed ar fy nelw.* Genesis 1:27 *Ynof Fi rwyt yn byw ac yn symud ac yn cael dy fodolaeth.* Actau 17:28 *Oherwydd fy hiliogaeth i ydwyt.* Actau 17:28 *Roeddwn yn dy adnabod hyd yn oed cyn iti gael dy feichiogi.* Jeremeia 1:4-5 *Bu i Mi dy ddewis pan gynlluniais y cread* Effesiaid 1:11-12 *Nid camgymeriad mohonot.* Salm 139:15-16 *Oherwydd mae dy holl ddyddiau wedi eu hysgrifennu yn fy llyfr.* Salm 139:15-16 *Bu i Mi benderfynu union amser dy enedigaeth a lle buasit yn byw.* Actau 17:26 *Yn ofnadwy a rhyfeddol y'th wnaed.* Salm 139:14 *Bu i Mi dy glymu wrth ei gilydd yng nghroth dy fam.* Salm 139:13 *A dyfod â thi allan ar y dydd y'th aned* Salm 71:6 *Rwyf wedi cael fy nghamddarlunio gan y rheiny nad ydynt yn fy adnabod.* Ioan 8:41-44 *Nid wyf yn oeraidd a dig, ond yn fynegiant llwyr o gariad.* 1 Ioan 4:16 *A fy nymuniad yw pentyrru fy nghariad arnat.* 1 Ioan 3:1 *Yn syml oherwydd dy fod yn blentyn i Mi a Minnau yn Dad i ti.* 1 Ioan 3:1 *Rwyf yn cynnig mwy i ti na allai dy dad daearol fyth fedru gwneud.* Mathew 7:11 *Oherwydd rwyf Fi y Tad perffaith.* Mathew 5:48 *Mae pob rhodd dda rwyt yn derbyn yn dod o fy llaw i.* Iago 1:17 *Oherwydd Myfi yw dy ddarparwr a rwyf yn cyfarfod â dy holl anghenion.* Mathew 6:31-33 *Mae fy nghynllun i dy ddyfodol wastad wedi ei lenwi â gobaith.* Jeremeia 29:11 *Oherwydd rwyf yn dy garu â chariad tragwyddol.* Jeremeia 31:3 *Mae fy meddyliau tuag atat mor ddi-rif â'r tywod ar lan y môr.* Salm 139:17-18 *A rwyf yn llawenhau drosot gyda chanu.* Seffaneia 3:17 *Ni wnaf fyth beidio â gwneud daioni i ti.* Jeremeia 32:40 *Oherwydd rwyt fy eiddo a drysorir.* Exodus 19:5 *Gyda'm holl galon â'm holl enaid rwyf yn dymuno dy sefydlu.* Jeremeia 32:41 *A rwyf eisiau dangos pethau mawr ac aruthrol i ti.* Jeremeia 33:3 *Os bydd iti fy ngheisio â'th holl galon, bydd iti ddod o hyd imi.* Deuteronomium 4:29 *Ymhyfryda ynof Fi a bydd imi roi iti ddymuniadau dy galon.* Salm 37:4 *Oherwydd Fi roddodd y dymuniadau hynny iti.* Philipiaid 2:13 *Rwyf yn abl i wneud mwy iti na fedri fyth ddychmygu.* Effesiaid 3:20 *Oherwydd Fi yw dy anogwr mwyaf.* 2 Thesaloniaid 2:16-17 *Fi hefyd yw y Tad sydd yn dy gysuro yn dy holl helbulon.* 2 Corinthiaid 1:3-4 *Pan rwyt â'th galon wedi ei thorri, rwyf yn agos atat.* Salm 34:18 *Fel bydd bugail yn cario oen, rwyf wedi dy gario di yn agos at fy nghalon.* Eseia 40:11 *Un dydd bydd imi sychu ymaith bob deigryn o dy lygaid.* Datguddiad 21:3-4 *A bydd imi gymryd ymaith yr holl boen rwyt wedi ei ddioddef ar y ddaear yma.* Datguddiad 21:3-4 *Myfi yw dy Dad, a rwyf hyd yn oed yn dy garu fel rwyf yn caru fy Mab, Iesu.* Ioan 17:23 *Oherwydd yn Iesu, caiff fy nghariad tuag atat ei amlygu.* Ioan 17:26 *Mae Ef yr union gynrychiolaeth o fy mod.* Hebreaid 1:3 *Daeth i ddangos fy mod i drosot, nid yn dy erbyn.* Rhufeiniaid 8:31 *Ac i ddweud wrthyt nad wyf yn cyfrif dy bechodau.* 2 Corinthiaid 5:18-19 *Bu i Iesu farw fel medri di a minnau gael ein cymodi.* 2 Corinthiaid 5:18-19 *Roedd ei farwolaeth y mynegiant eithaf o fy nghariad tuag atat.* 1 Ioan 4:10 *Bu imi roi popeth gerais fel medrwn ennill dy gariad di.* Rhufeiniaid 8:31-32 *Os derbynni y rhodd o fy Mab Iesu, rwyt yn fy nerbyn i* 1 Ioan 2:23 *Ac ni wnaiff dim dy wahanu byth eto oddi wrth fy nghariad i.* Rhufeiniaid 8:38-39 *Tyrd adref a bydd imi roi y parti mwyaf welodd y Nefoedd erioed.* Luc 15:7 *Rwyf wastad wedi bod yn Dad, a byddaf wastad yn Dad.* Effesiaid 3:14-15 *Fy nghwestiwn yw…wnei di fod yn blentyn i Mi?*Ioan 1:12-13 *Rwyf yn aros amdanat.* Luc 15:11-32

…Cariad, Dy Dad
Duw Hollalluog

Father's Love Letter ©1999-2006 Father Heart Communications www.fathersloveletter.com/Welsh Translated by Gareth Huws